9fed Llawr
Eastgate House
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB
Ffôn: 029 20460099
Ffacs: 029 20475850

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

9th Floor
Eastgate House
35-43 Newport Road
Cardiff
CF24 0AB
Tel: 029 20460099
Fax: 029 20475850

**Janet Finch-Saunders AC**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1SN**

7 Ebrill 2020

Annwyl Janet

**Deiseb P-05-1133 Addasu'r maes llafur hyfforddi athrawon i gynnwys Hyfforddiant Trawsnewidiol a Deallusrwydd Emosiynol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth 2021. Ymatebaf isod ar ran Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

Mae gan CGA gyfrifoldeb statudol (o dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru) i achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru a monitro eu cydymffurfiad wedi hynny. Gwneir yr ystyriaethau hyn yn unol â'r *"Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru 2018"*.

Mae'r meini prawf ac, yn ei dro, cynnwys y rhaglenni yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na CGA, felly mae'n fwyaf priodol i'r mater hwn gael ei gyfeirio at swyddogion y llywodraeth.

Fodd bynnag, efallai byddai'n ddefnyddiol i mi amlygu bod CGA a Llywodraeth Cymru wedi derbyn llawer o geisiadau ynghylch ychwanegiadau at faes llafur rhaglenni AGA dros y blynyddoedd. Mae'n bwysig cydnabod bod rhaglenni'n cyfuno cymysgedd o ddamcaniaeth ac ymarfer addysgu, a bod y cynnwys damcaniaethol wedi'i gyfyngu gan yr amser prin sydd ar gael i'w gyflwyno, yn enwedig yn achos cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) blwyddyn o hyd. Fel y cyfryw, er bod bwriad da i'r cynnwys ychwanegol a awgrymwyd, efallai na fydd o reidrwydd yn ymarferol ei gyflwyno yn yr amser sydd ar gael.

Mae croeso i chi gysylltu â mi ar hayden.llewellyn@ewc.wales neu **(029) 2046 0099** os gallaf fod o gymorth pellach.

Yn gywir

Hayden Llewellyn, Prif Weithredwr
Cyngor y Gweithlu Addysg